Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: ailarolygiad

## Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru

| | |
|---|---|
| Ysgol Addysg | Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Prifysgol Bangor | Prifysgol Aberystwyth |
| Safle'r Normal | Campws Penglais |
| Bangor | Aberystwyth |
| Gwynedd | Ceredigion |
| LL57 2PZ | SY23 3UX |

## Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |
| Delyth Lloyd Gray | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ganolfan o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Bydd Estyn yn ymweld â'r ganolfan yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf fel rhan o raglen fonitro arferol hyfforddiant cychwynnol athrawon.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Cyfathrebu gweledigaeth a nodau strategol clir ar gyfer y ganolfan

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ganolfan wedi datblygu gweledigaeth glir ac addas ar gyfer darparu hyfforddiant athrawon. Mae'r nodau yn ei datganiad cenhadaeth yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn gosod disgwyliadau addas i hyfforddeion, tiwtoriaid a mentoriaid. Hefyd, mae'r ganolfan wedi diffinio dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i'w gwaith. Maent yn briodol o uchelgeisiol a mesuradwy, ac mae'r ganolfan yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r rhan fwyaf ohonynt.

Ymgynghorodd arweinwyr y ganolfan yn helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys staff, mentoriaid a hyfforddeion yn ystod datblygu ei gweledigaeth. Cyfrannodd y broses hon yn dda at ddatblygu hunaniaeth a diben cyffredin, a chysondeb ar draws y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y ddwy brifysgol bartner. Mae'r ganolfan wedi cyfleu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda'i thiwtoriaid, mentoriaid a myfyrwyr.

Mae datganiad cenhadaeth y ganolfan wedi cynyddu disgwyliadau i diwtoriaid, mentoriaid a hyfforddeion. Mae'n llywio llawer o waith y ganolfan ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau hyfforddeion.

### Argymhelliad 2: Cryfhau arweinyddiaeth er mwyn i arweinwyr ar bob lefel gael eu dwyn yn atebol am ddeilliannau hyfforddeion

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws y ganolfan, yn enwedig ar lefel arweinwyr canol, wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2015-2016, fe wnaeth cyfarwyddwr y ganolfan wella cyfathrebu ar draws y ganolfan a neilltuo cyfrifoldebau arwain penodol i staff. Fe wnaeth disgwyliadau o ran ansawdd a chyfeiriad gwaith arweinwyr canol gynyddu ac eglurwyd eu rolau. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar ansawdd

gwaith arweinwyr rhaglenni. Yn Chwefror 2017, penodwyd cyfarwyddwr newydd i'r ganolfan ac fe'i cefnogwyd yn briodol yn ystod y broses o drosglwyddo cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr y ganolfan wedi sicrhau ansawdd adroddiadau hunanarfarnu rhaglenni a'r ganolfan gyfan yn ddigon trylwyr.

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae arweinwyr rhaglen wedi datblygu ymdeimlad cadarn o ddiben. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud gwelliannau arwyddocaol i'w harfer, yn enwedig wrth gynorthwyo hyfforddeion i wella'u medrau cynllunio gwersi ac arfarnu. Mae'r arweinwyr hyn wedi datblygu ymagwedd wrthrychol at eu gwaith. Nodant anawsterau cyffredin sydd gan hyfforddeion ac ymatebant yn dda i'r rhain. O ganlyniad, bu gwelliannau sylweddol yng nghynllunio, meddwl beirniadol a lles hyfforddeion.

Mae'r 'Bwrdd Adolygu Perfformiad' a'r 'Grŵp Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd', wedi cynyddu atebolrwydd ar draws y ganolfan. Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, er enghraifft uwch arweinwyr o'r ddwy brifysgol, penaethiaid, mentoriaid, tiwtoriaid a chynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r ddau grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro gwaith y ganolfan a chynigiant her briodol i arweinwyr ar bob lefel. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu addas ac yn mynd ar drywydd pwyntiau gweithredu blaenorol yn dda.

Mae'r ganolfan wedi cryfhau ei threfniadau rheoli perfformiad. Mae amcanion staff yn addas ac yn arwain at gyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae gan y ganolfan raglen o weithgareddau dysgu proffesiynol a ystyriwyd yn dda, sy'n cefnogi datblygiad staff yn dda.

**Argymhelliad 3: Gwella'r defnydd o ddata a thystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ganolfan wedi alinio ei gweithdrefnau ar gyfer casglu ac arfarnu data a thystiolaeth uniongyrchol er mwyn llywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn briodol.

Bellach, mae gan yn ganolfan galendr clir o weithgareddau monitro a dyddiadau ar gyfer dal data, sy'n cefnogi gweithdrefnau hunanarfarnu yn addas. Mae hyn yn cynnwys pwyntiau asesu allweddol yn ystod y flwyddyn yn ogystal ag ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae'r ganolfan wedi mireinio rhychwant y data y mae'n ei gasglu er mwyn canolbwyntio'n fwy priodol ar yr agweddau pwysicaf ar y safonau a chynnydd ei hyfforddeion. Mae'r prosesau hyn bellach yn gyffredin ar draws y ddwy brifysgol bartner. Mae arweinwyr yn dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad ar lefel unigol, carfan a rhaglen, ac yn eu mesur yn ddefnyddiol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cyffredin. Mae hyn yn golygu bod staff uwch yn gallu nodi'n fwy cywir gryfderau penodol y ganolfan a'r meysydd i'w datblygu yn safonau hyfforddeion, a chynllunio camau gweithredu addas ar gyfer gwella.

Mae adroddiadau hunanarfarnu rhaglenni unigol yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o amrywiaeth eang o ddata yn ymwneud â safonau. Yn gyffredinol, mae eu hansawdd

a'u fformat wrth arfarnu cynnydd hyfforddeion yn gyson. Mae'r adroddiadau'n nodi'n briodol gryfderau a gwendidau mewn safonau ac yn cynllunio'n dda ar gyfer gwelliannau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau hyfforddeion wrth gynllunio gwersi ac arfarnu effeithiolrwydd eu haddysgu.

Bu datblygiadau cadarn mewn gweithdrefnau mewnol i gasglu gwybodaeth am ansawdd addysgu yn y brifysgol a mentora yn yr ysgol ers yr arolygiad craidd. Mae'r rhain yn cynnwys ceisio barn hyfforddeion, tiwtoriaid a mentoriaid yn rheolaidd, a chreu cyfleoedd defnyddiol i diwtoriaid arsylwi ei gilydd yn addysgu. Yn ogystal, mae tiwtoriaid a mentoriaid wedi gweithio'n fuddiol ochr yn ochr â staff o ddarparwyr a sefydliadau addysg allanol drwy arsylwi mewn parau. Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn gwneud defnydd digon effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a mentora i lywio cynllunio ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn cyflwyno adroddiadau blynyddol defnyddiol ar ganfyddiadau o arsylwi sesiynau addysgu yn y brifysgol i Fwrdd Sicrhau Ansawdd y Ganolfan. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd digon cynhwysfawr o ganfyddiadau gweithgareddau monitro yn llawn i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a nodi meysydd pwysig i'w gwella mewn addysgu a mentora. Yn ogystal, mae gormod o ddibynnu ar farn hyfforddeion i lunio arfarniad y ganolfan o ansawdd yr addysgu.

Yn gyffredinol, mae cynlluniau gwella rhaglenni a'r Ganolfan yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r camau gweithredu hyn yn ddigon miniog a phenodol i ganiatáu i arweinwyr fonitro'u cynnydd. Yn ogystal, mae manylion amserlenni, gweithgareddau monitro a cherrig milltir i fesur cynnydd yn aneglur.

**Argymhelliad 4: Gwella cywirdeb tiwtoriaid a mentoriaid o ran barnu safonau hyfforddeion a'u gallu i osod targedau sy'n helpu hyfforddeion i wneud cynnydd da**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ganolfan wedi llunio canllawiau manwl i helpu i wella cywirdeb a dibynadwyedd wrth asesu cyflawniad a chynnydd hyfforddeion yn y profiad ysgol. Ers yr arolygiad craidd, mae tiwtoriaid a mentoriaid wedi cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu'r arweiniad hwn a llunio system raddio gyffredin ar gyfer pob rhaglen. Mae'r ganolfan wedi darparu cyfleoedd priodol i fentoriaid a thiwtoriaid gydweithio i fireinio'r canllawiau hyn dros gyfnod. Mae'r system raddio'n darparu meini prawf clir ar gyfer barnu cynnydd hyfforddeion.

Ers Medi 2016, mae'r ganolfan wedi darparu cyfres o sesiynau hyfforddi effeithiol i fentoriaid a thiwtoriaid. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf a'r graddau ar gyfer arfarnu gwersi hyfforddeion a'u cynnydd wrth addysgu dros gyfnod. O ganlyniad, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cymhwyso'r meini prawf hyn yn fwy hyderus a chyson. Mae'r arfarniad o addysgu gan hyfforddeion yn fwy cywir erbyn hyn.

Mae'r targedau ar gyfer gwella y mae hyfforddeion, mentoriaid a thiwtoriaid yn eu gosod ac yn cytuno arnynt yn ffeiliau'r profiad ysgol yn aml yn cysylltu'n addas â

safonau SAC (Statws Athro Cymwysedig). Mewn mwyafrif o achosion, mae'r targedau hyn yn rhoi ffordd ymlaen ddefnyddiol i hyfforddeion. Fel arfer, mae hyfforddeion yn ymateb yn briodol i'r targedau hyn ac mae mentoriaid yn aml yn nodi gwelliannau yn y meysydd hyn wrth arsylwi gwersi yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw mentoriaid a hyfforddeion yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y ganolfan yn ddigon da i osod targedau sy'n ddigon penodol i helpu hyfforddeion i wella a bodloni'r safonau SAC perthnasol.

Mae'r ganolfan wedi rhoi gweithdrefnau addas ar waith i fonitro ansawdd hyfforddiant yn yr ysgol. Mae medrau a hyder tiwtoriaid i gynnal deialog broffesiynol am gynnydd a chyflawniad hyfforddeion gyda mentoriaid wedi cynyddu. Mae hyn yn golygu bod mwy o allu ganddynt i arfarnu a herio gwaith mentoriaid a gweithio gyda nhw'n bwrpasol i gytuno ar raddau addas ar gyfer hyfforddeion. Mae adborth gan fentoriaid a thiwtoriaid ar gynlluniau hyfforddeion yn cyfateb yn agosach i'r graddau a ddyfernir. Mae anodiadau yn ffeiliau hyfforddeion a sylwadau arfarnol yn dilyn arsylwadau gwersi bellach yn fwy defnyddiol i hyfforddeion o ran gwella'u cynllunio a'u harfarniadau. Ar draws pob rhaglen, mae uwch arweinwyr yn cydweithredu'n dda i graffu ar ffeiliau profiad ysgol hyfforddeion a monitro ansawdd adborth ac arfarniad tiwtoriaid a mentoriaid. Mae'r defnydd ar y systemau hyn wedi helpu i ddwyn mwy o gysondeb i arfarniadau o gyflawniad a chynnydd hyfforddeion.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ganolfan wedi gwella'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i diwtoriaid wrth farcio ac asesu aseiniadau prifysgol yr hyfforddeion. Mae sesiynau dysgu proffesiynol defnyddiol wedi rhoi cyfleoedd da i diwtoriaid ddadansoddi ac ystyried effeithiolrwydd eu marcio a'u hadborth i hyfforddeion, a rhannu arfer dda gyda'i gilydd. Mae sylwadau ffurfiannol tiwtoriaid ar aseiniadau yn aml yn ddefnyddiol ac, erbyn hyn, maent yn canolbwyntio'n fanylach ar arfarnu ac annog medrau beirniadol hyfforddeion. Fodd bynnag, nid yw hyfforddeion bob amser yn ymateb yn ddigon trylwyr i'r awgrymiadau hyn. Yn gyffredinol, mae'r graddau a ddyfernir yn fwy cywir erbyn hyn.

**Argymhelliad 5: Gwella medrau cynllunio hyfforddeion i ganolbwyntio'n gliriach ar ddeilliannau i ddisgyblion, fel bod hyfforddeion yn defnyddio gwybodaeth asesu i osod nodau dysgu clir, a nodi strategaethau addysgu a dysgu effeithiol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ganolfan wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gwella ansawdd cynlluniau hyfforddeion.

Bellach, mae gan y ganolfan ddisgwyliadau trylwyr ar gyfer cynllunio gwersi gan hyfforddeion. Mae hyn yn cynnwys arweiniad clir ar gynllunio, sy'n rhoi enghreifftiau priodol o gynllunio, gwerthuso a gosod targedau i diwtoriaid, mentoriaid a hyfforddeion. Yn ogystal, ar draws pob rhaglen, mae ffurflen gyffredin ar gyfer cynllunio gwersi yn cynnwys negeseuon atgoffa defnyddiol i hyfforddeion ddatblygu deilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant, cyfleoedd asesu a gweithgareddau sydd wedi'u teilwra i anghenion disgyblion. Hefyd, mae'r ffurflen yn atgoffa hyfforddeion yn briodol i ystyried sut bydd eu gwers yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a TGCh disgyblion.

Mae hyfforddeion, mentoriaid a thiwtoriaid yn gwneud defnydd pwrpasol o'r canllawiau graddio newydd i nodi'r diffygion yng nghynllunio ac arfarniadau hyfforddeion. Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn rhoi adborth amserol a phenodol i hyfforddeion ar ansawdd eu cynllunio. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau cynllunio hyfforddeion.

Ar draws pob rhaglen, mae medrau cynllunio hyfforddeion yn well o lawer nag ar adeg yr arolygiad craidd. Yn gyffredinol, mae hyfforddeion yn ystyried gwybodaeth a chyflawniadau blaenorol eu disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio tystiolaeth o'u harfarniadau blaenorol o wersi ac yn myfyrio ar effeithiolrwydd eu haddysgu bob wythnos. O ganlyniad, mae llawer yn cynllunio'n briodol ar gyfer dysgu dros gyfres o wersi. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn gosod amcanion clir ac addas ar gyfer y wers ac yn nodi meini prawf llwyddiant penodol a pherthnasol. Mae llawer o hyfforddeion yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion osod eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Fodd bynnag, mae ychydig hyfforddeion yn gosod meini prawf llwyddiant sy'n rhy gyffredinol, nad ydynt yn cynnwys digon o her i ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn nodi strategaethau addysgu a dysgu addas yn eu cynlluniau gwersi ac yn cynnwys cyfleoedd asesu perthnasol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o hyfforddeion yn ystyried y dewis o strategaethau asesu a'u heffaith yn ddigon da.

Mae'r ffurflen newydd ar gyfer cynllunio gwersi yn cynnwys y gofyniad i hyfforddeion fyfyrio'n feirniadol ar eu cynllunio. Mae hyn yn annog hyfforddeion i ddadansoddi eu haddysgu a chynnydd eu disgyblion. Mae arfarniadau llawer o hyfforddeion bellach yn fwy myfyriol ac, yn yr enghreifftiau gorau, maent yn defnyddio tystiolaeth briodol i'w helpu i farnu effeithiolrwydd eu gwers. Mae'r hyfforddeion hyn yn canolbwyntio'n fwy priodol ar y deilliannau i ddisgyblion. Mae hyn yn helpu hyfforddeion i gynllunio gwersi dilynol ac adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, mae arfarniadau gan ychydig bach o hyfforddeion yn rhy ddisgrifiadol o hyd ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. O ganlyniad, nid yw'r hyfforddeion hyn bob amser yn datblygu targedau cadarn i ddysgwyr wella'u medrau.

**Argymhelliad 6: Gwella gallu hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ganolfan yn asesu medrau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion pan fyddant yn cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'r deilliannau hyn yn effeithiol i ddatblygu medrau hyfforddeion ymhellach. Mae tiwtoriaid a hyfforddeion yn cytuno ar dargedau heriol ac yn monitro cynnydd yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid a mentoriaid yn rhoi cymorth buddiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh hyfforddeion a rhoi adborth defnyddiol sy'n helpu hyfforddeion i nodi a mynd i'r afael â'u hanghenion datblygu eu hunain. Mewn ffeiliau profiad ysgol, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn rhoi adborth defnyddiol ar ansawdd iaith ysgrifenedig hyfforddeion. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn defnyddio'r adborth hwn yn effeithiol i addasu eu gwaith ysgrifenedig. Mewn asesiadau, nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn amlygu diffygion yn ansawdd y mynegiant yn gyson, na gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi. O ganlyniad, nid yw hyfforddeion bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd yn y maes hwn o'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn gwneud defnydd priodol o safle medrau dysgu rhithwir y ganolfan, sy'n cadw adnoddau defnyddiol i ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd disgyblion. Mae'r ganolfan yn darparu llawlyfrau defnyddiol sy'n helpu hyfforddeion, mentoriaid a thiwtoriaid i feddu ar ddealltwriaeth glir a chyson o asesu, datblygu ac olrhain medrau personol hyfforddeion. Mae'r llawlyfrau hyn yn rhoi arweiniad cynhwysfawr i hyfforddeion ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyfforddeion yn cynllunio gweithgareddau perthnasol sydd wedi'u cysylltu'n glir â gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Ers Medi 2016, bu mwy o gynnydd ar wella galluoedd hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion mewn TGCh. Er enghraifft, mae hyfforddeion yn ymwybodol o'r angen i ystyried a pharatoi ar gyfer gweithredu'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae gweithgareddau wedi'u strwythuro'n dda ac yn adeiladu'n gynyddol ar ddysgu blaenorol ym mhob rhaglen. Fodd bynnag, mewn ychydig enghreifftiau o gynlluniau hyfforddeion, nid yw meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â datblygu agweddau penodol ar lythrennedd, rhifedd neu TGCh yn ddigon manwl, nac yn cael eu nodi'n ddigon clir ychwaith.

Mae datblygiad medrau Cymraeg hyfforddeion sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn uchel ei broffil ar draws y ganolfan. Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu'u medrau Cymraeg eu hunain, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau hyn bob amser yn bodloni anghenion unigolion yn ddigon effeithiol.

Erbyn hyn, mae gan raglenni bwyslais addas ar ddatblygu galluoedd hyfforddeion a'u hyder i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Er enghraifft, ar raglenni cynradd, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn modelu'r strategaethau hyn yn llwyddiannus ac yn darparu adnoddau ar-lein defnyddiol i hyfforddeion. Mae llawer o hyfforddeion cynradd yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol. Mae hyfforddeion uwchradd bellach yn cynllunio gweithgareddau rheolaidd i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar gyflwyno geirfa sy'n benodol i bwnc, yn hytrach nag ar ddatblygu medrau disgyblion i ddefnyddio Cymraeg bob dydd yn gywir ac yn briodol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cynnydd digon da o ran datblygu eu medrau Cymraeg eu hunain a medrau eu disgyblion.

**Argymhelliad 7: Gwella medrau meddwl beirniadol hyfforddeion yn eu hastudiaethau yn y brifysgol a'u harfarniadau o ddysgu disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae'r ganolfan wedi rhoi mwy o bwyslais o lawer ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol hyfforddeion. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar ymagwedd y ganolfan at gyflwyno rhaglenni, a dysgu proffesiynol ei staff. Mae hyn wedi darparu cyfeiriad clir i gryfhau medrau a dealltwriaeth hyfforddeion. O ganlyniad, bu gwelliant amlwg yng ngallu hyfforddeion i arfarnu eu haddysgu.

Mae arweinwyr wedi casglu tystiolaeth werthfawr i lywio'u dealltwriaeth o ansawdd ac amlder addysgu yn y brifysgol i ddatblygu medrau beirniadol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'r ganolfan wedi darparu hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol i diwtoriaid a mentoriaid ar draws pob rhaglen i ategu eu harfer yn y maes hwn. Yn

ogystal, cafodd yr holl raglenni eu hailstrwythuro i roi mwy o amser i hyfforddeion ymarfer a datblygu eu medrau beirniadol. Mae’r camau gweithredu hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth tiwtoriaid a hyfforddeion o bwysigrwydd meddwl beirniadol ac wedi rhoi strwythur cadarn i diwtoriaid ar gyfer datblygu medrau hyfforddeion.

Mae’r ganolfan yn casglu data i fonitro safonau medrau beirniadol hyfforddeion yn ystod eu rhaglen. Mae hyn yn helpu tiwtoriaid i ystyried sut maent yn asesu’r medrau hyn ac mae’n rhoi gwybodaeth waelodlin ddefnyddiol ar gyfer mesur gwelliant ohoni. Mae’r craffu manwl hwn ar ddatblygiad hyfforddeion yn helpu’r ganolfan i ganolbwyntio ar y meysydd penodol y mae hyfforddeion yn cael anawsterau â nhw, a hefyd i nodi’r hyfforddeion hynny y mae angen cymorth arnynt gan eu tiwtor personol.

Mae’r ganolfan yn dadansoddi ffeiliau cynllunio gwersi hyfforddeion yn rheolaidd i gasglu tystiolaeth i farnu pa mor dda mae hyfforddeion yn datblygu’u medrau beirniadol drwy eu profiad ysgol. Mae arweinwyr y ganolfan wedi nodi’n gywir y diffygion penodol yng ngallu hyfforddeion i arfarnu eu haddysgu ac wedi defnyddio’r wybodaeth hon i wneud gwelliannau i hyfforddiant yn yr ysgol ac yn y brifysgol.

Mae arweiniad clir, sesiynau hyfforddi â ffocws a dull mwy cyson ar draws pob rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau hyfforddeion. Mae arfarniadau hyfforddeion o’u gwersi bellach yn canolbwyntio’n fwy ar ddefnyddio cynnydd disgyblion fel mesur o effeithiolrwydd eu haddysgu. Mae hyfforddeion yn defnyddio’u myfyrdodau mewn ffordd fwy perthnasol i wella’u medrau addysgu ac i gynllunio gyda mwy o ddealltwriaeth o ddilyniant a chynnydd mewn dysgu.

Mae aseiniadau prifysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i hyfforddeion ddatblygu’u medrau beirniadol ac ystyried y cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac arfer. Mae llawer o diwtoriaid yn talu sylw da i nodi medrau beirniadol hyfforddeion wrth farcio aseiniadau prifysgol. Mewn mwyafrif o achosion, mae tiwtoriaid yn darparu sylwadau defnyddiol sy’n annog hyfforddeion i ddatblygu’u hymatebion beirniadol i lenyddiaeth ymchwil ac i’w profiadau addysgu eu hunain. Mae tiwtoriaid yn rhoi cymorth gwerthfawr i hyfforddeion sy’n eu helpu i ailddrafftio a gwella’u haseiniadau. Fodd bynnag, nid yw ychydig diwtoriaid yn rhoi cymorth digon da er mwyn i hyfforddeion ôl-raddedig ddatblygu eu dealltwriaeth o ddulliau ymchwil. At hynny, nid yw’r meini prawf ar gyfer marcio aseiniadau ar lefel gradd feistr yn nodi’r medrau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n ofynnol ar gyfer y dasg ymchwil ‘astudio agored’ yn ddigon clir. Mae hyn yn golygu bod dealltwriaeth a defnydd hyfforddeion o ddadansoddi beirniadol mewn ymchwil sy’n seiliedig ar arfer yn cael eu rhwystro mewn ambell achos.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai’r ganolfan barhau i gynnal lefel y cynnydd a wnaed ganddi eisoes a pharhau i fynd i’r afael â’r argymhellion arolygu hynny lle y bo angen rhagor o gynnydd.